Beibl i Blant

yn cyflwyno



Brenhinoedd da a Brenhinoedd drwg

Awdur: Edward Hughes
Lluniau gan: Lazarus
addaswyd gan: Ruth Klassen
Cyfieithydd: Catrin Roberts
Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

BFC
PO Box 3
Winnipeg, MB R3C 2G1
Canada

©2016 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon,
ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Dyna ddiwrnod trist. Roedd tad Manasse, y brenin Heseceia, newydd farw. Yn 12 oed, Manasse oedd y brenin newydd yn rheoli pobl Dduw yn Jwda. Doedd e ddim yn gwybod hynny ar y pryd, ond byddai Manasse yn frenin am 55 o flynyddoedd. Roedd e angen help Duw i fod yn frenin da.

Beth wnaeth Manasse? Anwybyddu Duw a gwneud pethau drwg. Dyma fe'n ail adeiladu allorau er mwyn addoli eilunod. Fe wnaeth e gerfio delw a'i rhoi yn y Deml! Roedd Duw wedi dweud trwy Moses, "Paid cerfio eilunod. Paid plygu i lawr a'u haddoli nhw."

Roedd Manasse yn ymarfer dewiniaeth a swynion. Fe wnaeth e arwain y bobl oddi wrth Dduw. Fe wnaeth e hyd yn oed losgi ei feibion ei hun fel aberth i'r duwiau ffug. Roedd Duw yn flin iawn fod Manasse mor anufudd.



Pan mae ei bobl yn anufudd, mae Duw yn gadael iddyn nhw gael eu cosbi. Dyna ddigwyddodd i Manasse a'i bobl. Felly dyma'r ARGLWYDD yn dod â byddin Assyria i'r wlad. Cafodd Manasse ei gymryd yn gaeth mewn tsaeniau i Babylon.





Yng nghanol y creisis yn Babylon, fe wnaeth Manasse weddio ar yr ARGLWYDD ei Dduw, ac edifarhau go iawn o flaen Duw ei hynafiaid. Dim mwy o addoli duwiau ffug marw! Ond, oedd y Duw byw yn mynd i wrando ar ôl i Manasse wneud cymaint o bethau drwg?

Oedd! Clywodd Duw ei weddi a dod ag e'n ôl i Jerwsalem i fod yn frenin. A dyna sut y daeth Manasse i ddeall mai'r ARGLWYDD sydd Dduw.



Roedd y Brenin Manasse fel person newydd. Dyma fe'n symud y duwiau paganaidd o Jerwsalem a'r ddelw o deml Duw. Dyma nhw'n eu taflu i ffwrdd fel sbwriel. Fe drwsiodd allor yr ARGLWYDD a chyflwyno offrymau o ddiolch i Dduw.



Yna dyma fe'n gorchymyn fod pobl Jwda i addoli'r ARGLWYDD Duw Israel. Roedd Manasse wedi newid!



Wedi marw Manasse, fe wnaeth ei fab, Amon, ddechrau addoli duwiau ffug eto. Ond yn wahanol i Manasse, wnaeth Amon ddim troi'n ôl at yr ARGLWYDD. Gwnaeth fwy a mwy o bethau drwg ac yn y diwedd cafodd ei ladd gan ei weision, yn ei gartref ei hun. Dim ond am ddwy flynedd roedd e wedi bod yn frenin.



Wyth oed oedd Joseia, y brenin nesaf, pan ddaeth i reoli. Bu'n frenin am 31 o flynyddoedd. Roedd yn gwneud beth oedd yn plesio'r ARGLWYDD. Chwalodd y delwau a'r allorau. Yn wir, dyma fe'n malu nhw'n llwch man.



Fe wnaeth Joseia, y brenin da, lanhau a thrwsio'r Deml hefyd. Yng nghanol y sbwriel, daeth offeiriad o hyd i Sgrôl y Gyfraith roddodd yr ARGLWYDD i Moses.



Pan glywodd y brenin eiriau'r Gyfraith, dyma fe'n rhwygo'i ddillad yn drist. Sylweddolodd Joseia pa mor ddrwg fu ei hynafiaid yn gwrthod ufuddhau i'r gyfraith.

Daeth proffwydes o'r enw Hulda â neges gan Dduw i Joseia. "Dyma mae'r ARGLWYDD yn ei ddweud, 'Dwi'n mynd i ddod â dinistr ofnadwy ar y wlad achos bod nhw wedi troi cefn arna i.'" Ond am fod Joseia yn ufudd ac yn sori, byddai hyn ddim yn digwydd nes iddo farw.

Cafodd Joseia help Duw i arwain ei bobl yn ôl at Dduw. Un diwrnod, pan oedd Joseia a'i bobl mewn brwydr, cafodd ei anafu gan un o saethwyr y gelyn. Roedd ei bobl yn drist, ac fe wnaethon nhw ysgrifennu caneuon yn canmol Joseia, y Brenin da.



Yn fuan wedyn, daeth y deyrnas i ben. Ond rhyw ddiwrnod, bydd brenin yn rheoli Israel unwaith eto. Ei enw fydd BRENIN Y BRENHINOEDD AC ARGLWYDD YR ARGLWYDDI.



Pan ddaeth Iesu Grist i'r byd, cafodd ei wrthod gan bobl a'i ladd ar groes. Pan ddaw Iesu i'r byd eto, fe fydd nid yn unig yn frenin ar Israel, ond yn frenin ar y byd i gyd.

Brenhinoedd da a Brenhinoedd drwg

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

2 Cronicl 33-36

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130


Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16